Cyngor Sir Fynwy

Gwasanaeth Casglu Gwastraff Gardd 2024

Polisi a Thelerau ac Amodau

Cyfnod y Cytundeb

1. Mae cyfnod y gwasanaeth casglu yn rhedeg o'r 4ydd Mawrth 2024 i'r 6ed Rhagfyr 2024. Gydag un casgliad ychwanegol rhwng y 6ed a'r 17eg Ionawr 2025.

2. Mae'r cytundeb hwn yn parhau i fod mewn grym ar gyfer y cyfnod gwasanaeth llawn ac os caiff ei ganslo gan y cwsmer ar unrhyw adeg o fewn y cyfnod hwn ni roddir ad-daliad.

Costau

3. Pennir taliadau'n flynyddol cyn cyfnod y gwasanaeth casglu. Ni fydd unrhyw gynnydd mewn prisiau'n cael eu gosod yng nghanol cyfnod y gwasanaeth casglu.

4. Ar gyfer 2024, y tâl yw:

- £55.00 i wagio un bin olwyn 240 litr unwaith bob pythefnos
- £110.00 i wagio dau fin olwyn 240 litr unwaith bob pythefnos
- £165.00 i wagio tri bin olwyn 240 litr unwaith bob pythefnos ac yn y blaen...

5. Nid oes terfyn ar nifer y biniau y gall aelwyd eu prynu.

6. Codir tâl cyfnod gwasanaeth llawn waeth beth fo'r dyddiad ymuno.

Proses Ceisiadau

7. Bydd angen y wybodaeth ganlynol i gofrestru ar gyfer y gwasanaeth:

- Enw
- Cyfeiriad
- Rhif Ffôn Cyswllt
- Cyfeiriad e-bost – ceisiwch ddarparu'r wybodaeth hon fel y gallwn leihau gwastraff wrth anfon llythyrau papur. Byddwn ond yn cysylltu â chi'n uniongyrchol mewn perthynas â'r gwasanaeth casglu gwastraff gardd.
- Manylion talu

Dull Talu

8. Byddai'n well gan Gyngor Sir Fynwy i ddeiliaid tai dalu ar-lein ond mae'n cynnig opsiynau talu eraill fel isod:

- Ar-lein: https://www.monmouthshire.gov.uk/cy/ailgylchu-a-gwastraff/gwastraff-gardd/
- Dros y ffôn: Llinell dalu'r Ganolfan Gyswllt: 01633 644644
- Gyda cherdyn yn eich Hyb Cymunedol lleol

Biniau olwyn

9. Mae'r biniau olwyn yn parhau i fod yn eiddo i Gyngor Sir Fynwy bob amser.

10. Bydd gan y biniau olwyn a ddarperir gan Gyngor Sir Fynwy gapasiti o 240 litr.

11. Dim ond at y diben a fwriadwyd, sef y gwasanaeth casglu gwastraff gardd, y dylid defnyddio'r biniau olwyn.

12. Bydd y cyngor yn darparu sticer tanysgrifio gwastraff gardd i gwsmeriaid ar gyfer pob bin olwyn y maent wedi talu amdano. Bydd hyn yn cael ei bostio i gyfeiriad y cwsmer o fewn 14 diwrnod i'r dyddiad tanysgrifio.

13. Rhaid i'r cwsmer osod y sticeri o dan handlen y bin olwyn. Ni fydd y cyngor yn casglu gwastraff gardd o finiau nad ydynt yn arddangos eu sticer tanysgrifio gwastraff gardd.

14. Bydd y biniau olwyn yn llwyd gyda chaead gwyrdd a bydd logo Sir Fynwy a 'Gwastraff gardd yn unig' wedi'u hargraffu ar y corff yn y Gymraeg a'r Saesneg.

15. Gall y bin a gyflenwir i'r cwsmer fod yn fin wedi'i adnewyddu, ond bydd yn gweithio'n llawn ac yn lân.

Gwasanaeth ym mlwyddyn gyntaf y cwsmer

16. Bydd cofrestru ar gyfer y gwasanaeth gwastraff gardd yn agor ym mis Ionawr bob blwyddyn.

17. Ar adeg cofrestru, bydd y diwrnod casglu penodedig ar gyfer eu heiddo yn cael ei ddarparu i'r cwsmer. Os byddwch yn hunan-wasanaethu, darperir dolen ar-lein. Os bydd cofrestru'n digwydd dros y ffôn neu wyneb yn wyneb, bydd y diwrnod casglu yn cael ei roi ar lafar. Os yw'r cwsmer yn darparu cyfeiriad e-bost, bydd cadarnhad o'i ddiwrnod casglu hefyd yn cael ei e-bostio. Os nad yw'r cwsmer yn darparu cyfeiriad e-bost, anfonir llythyr drwy'r Post Brenhinol yn cadarnhau eu diwrnod casglu.

18. Ar ôl cofrestru, gall gymryd hyd at 14 diwrnod calendr i fin gael ei gyflwyno.

19. Bydd y bin yn cael ei ddanfon i le diogel o fewn ffin yr eiddo o fewn golwg glir i'r drws ffrynt ond ni fydd yn rhwystro mynediad i'r eiddo.

20. Ar ôl i'r bin gael ei ddanfon a derbyn eich sticer a'i arddangos ar eich bin, bydd y bin/biniau wedyn yn cael eu gwagio ar y diwrnod casglu nesaf.

Gwasanaeth yn y blynyddoedd dilynol

21. Bydd cofrestru ar gyfer casglu gwastraff gardd yn ailagor ym mis Ionawr bob blwyddyn.

22. Ni fydd cwsmeriaid blaenorol, sydd eisoes wedi cael biniau, yn cael biniau newydd yn y blynyddoedd dilynol, oni bai eu bod wedi rhoi gwybod i'r Cyngor am golled neu ddifrod.

23. Cyfrifoldeb y cwsmer yw sicrhau bod y bin a neilltuir iddynt yn aros yn yr eiddo cofrestredig. Ni ddylai'r cwsmer gyfnewid y bin gydag unrhyw eiddo arall.

24. Os nad yw cwsmer wedi ailgofrestru erbyn y 1af Ebrill mewn unrhyw flwyddyn ddilynol, mae Cyngor Sir Fynwy yn cadw'r hawl i gasglu a chymryd y bin yn ôl, gan ei fod yn parhau i fod yn eiddo i Gyngor Sir Fynwy.

Colled/Difrod i Finiau

25. Cyfrifoldeb y cwsmer yw diogelwch y bin/biniau gwastraff gardd.

26. Bydd y cwsmer yn gyfrifol am gynnal glanweithdra'r bin/biniau gwastraff gardd.
27. Bydd y Cyngor yn disodli'r bin/biniau'n rhad ac am ddim os cânt eu colli neu eu difrodi yn ystod y broses gasglu.

28. Os bydd bin yn cael ei golli neu ei dwyn, rhowch wybod i Gyngor Sir Fynwy drwy e-bostio **contact@monmouthshire.gov.uk** neu ffoniwch ni ar 01633 644644.

29. Mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai fod angen i'r biniau gael eu hadnewyddu dros amser oherwydd traul deg. Ymdrinnir â'r rhai sy'n cael eu disodli ar sail unigol, dylai cwsmeriaid sy'n teimlo bod angen bin newydd arnynt gysylltu â Chyngor Sir Fynwy er mwyn i'r bin gael ei asesu a'i ddisodli neu ei drwsio.

30. Ni fydd y Cyngor yn disodli biniau am unrhyw resymau cosmetig.

31. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i godi tâl o £23 am fin olwyn newydd os canfyddir bod difrod neu golled wedi cael ei achosi drwy gamddefnyddio neu esgeuluso'r bin gan y cwsmer.

Gwastraff Gardd - Rheolau

32. Gellir ond gwaredu ar wastraff gardd:
(*Nodwch na allwn dderbyn pridd, cerrig, graean, baw/gwasarn cathod, cŵn neu adar).*

- Toriadau gwair
- Chwyn
- Dail a rhisgl
- Toriadau planhigion a blodau
- Toriadau gwrychoedd a thocio
- Brigau a changhennau bach (Diamedr o 2” ar y mwyaf)

33. Rhaid cynnwys yr holl wastraff gardd yn y biniau a ddarperir. Ni fydd unrhyw wastraff gardd nad yw wedi'i gynnwys mewn bin Cyngor Sir Fynwy yn cael ei gasglu.

34. Ni fydd y biniau'n cael eu casglu os yw'r gwastraff gardd yn cael ei roi mewn unrhyw fath arall o gynhwysydd ac eithrio'r bin/biniau a ddarperir gan y Cyngor.

35. Rhaid i'r cwsmer osod y sticeri o dan handlen y bin olwyn. Ni fydd y cyngor yn casglu gwastraff gardd o finiau nad ydynt yn arddangos eu sticer tanysgrifio gwastraff gardd.

36. Os yw'r bin/biniau gwastraff gardd wedi'u halogi ag unrhyw wastraff arall, ni fydd y bin/biniau gwastraff gardd yn cael eu casglu a bydd sticeri’n cael eu gosod arnynt. Bydd angen tynnu'r deunydd annerbyniol cyn y diwrnod casglu nesaf a drefnwyd.

37. Nodwch, o ganlyniad i newidiadau mewn deddfwriaeth mewn perthynas â gwahanu, na ddylid cynnwys gwastraff bwyd yn y gwastraff gardd.

38. Ni ddylai'r biniau fod yn gorlifo – rhaid i'r holl wastraff gardd fod y tu mewn i'r bin. Rhaid cau caead y bin yn y man casglu. Os yw'n gorlifo mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i beidio â gwagio'r biniau.

39. Ni ddylai'r bin gwastraff gardd fod yn rhy drwm. Bydd yn rhaid i'r cwmni fynd â'r bin i'r cerbyd casglu. Nid oes terfyn pwysau penodol. Os na all y cwmni symud y bin ar ei olwynion yn ddiogel, mae'r cyngor yn cadw'r hawl i beidio â gwagio'r bin.

40. Rhaid gadael y bin gwastraff gardd ar ffin eiddo'r cwsmer, wrth ymyl y briffordd gyhoeddus, neu mewn man casglu y cytunwyd arno gan y cyngor, erbyn 7am ar y diwrnod casglu.

41. Os na chaiff y bin/biniau gwastraff gardd eu cyflwyno fel y rhagnodir yng Nghymalau 32-40 uchod, ni fydd y criw casglu yn dychwelyd tan y diwrnod casglu nesaf a drefnwyd.

42. Os canfyddir bod y bin/biniau gwastraff gardd yn torri unrhyw un o'r cymalau 32-40 bydd sticer yn cael ei roi ar y bin, sy'n rhoi gwybod i gwsmeriaid am y rheswm nad yw'r bin/biniau wedi'u casglu. Bydd y criw casglu hefyd yn cofnodi unrhyw faterion ar system o fewn y caban yn unol â pholisi casgliadau cyffredinol y Cyngor.

43. Mae Cyngor Sir Fynwy yn cadw'r hawl i derfynu'r cytundeb hwn a chasglu'r bin yn amodol ar barhau i dorri'r rheolau a nodir yn y ddogfen hon.

Amlder Casglu

44. Bydd y bin/biniau gwastraff gardd yn cael eu casglu unwaith bob pythefnos ar gyfer cyfnod y gwasanaeth casglu'r flwyddyn honno.

45. Os yw cwsmer yn credu bod casgliad wedi'i golli, a'u bod wedi bodloni'r holl Reolau a nodir yn y ddogfen hon, gallant adrodd am gasgliad a fethwyd i Gyngor Sir Fynwy. Bydd Cyngor Sir Fynwy yn ymchwilio i'r rheswm dros y casgliad a gollwyd ac os canfyddir ei fod ar fai, bydd yn dychwelyd i wneud y casgliad cyn gynted â phosibl.

46. Bydd y Cyngor yn gwneud pob ymdrech i gynnal casgliadau yn ystod tywydd garw. Fodd bynnag, mae'r cyngor yn cadw'r hawl i atal neu ohirio casgliadau mewn amgylchiadau eithriadol, ac ni fydd yn cynnig ad-daliad mewn amgylchiadau o'r fath.

47. Mae'r cyngor yn cadw'r hawl i newid y diwrnod casglu gwastraff gardd yn amodol ar roi hysbysiad ysgrifenedig i gwsmeriaid.

48. Mae'r Cyngor yn ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o safon a bydd biniau'n cael eu dychwelyd i'r pwynt y cawsant eu casglu a'u gadael mewn modd taclus bob amser.

49. Bydd y gwasanaeth yn rhedeg yn dymhorol rhwng mis Mawrth a mis Rhagfyr ar gyfer casgliadau, ond efallai y bydd preswylwyr yn dal i ddefnyddio'r canolfannau ailgylchu gwastraff cartref a fydd yn derbyn gwastraff gardd drwy gydol y flwyddyn i'w gompostio.

50. Bydd Sir Fynwy yn darparu 20 casgliad i bob un o'i chwsmeriaid rhwng y 4ydd Mawrth 2024 i'r 6ed Rhagfyr 2024, oni bai bod y bin/biniau'n cael eu gadael yn fwriadol gan y criwiau casglu am unrhyw un o'r rhesymau a amlinellir yng nghymalau 32-40.

Symud o fewn Sir Fynwy

51. Os bydd cwsmer yn symud i eiddo arall yn y Sir, rhaid hysbysu'r Cyngor am hyn. Mae'r cwsmer yn gyfrifol am gludo'r bin i'r eiddo newydd.

Symud y Tu Allan i Sir Fynwy

52. O ganlyniad i wahanol gynlluniau Gwastraff Gardd yn cael eu gweithredu mewn awdurdodau cyfagos, ni all y Cyngor gynnig trosglwyddiad os byddwch yn symud allan o'r Sir.

53. Ni ellir ad-dalu'r gwasanaeth o dan yr amgylchiadau hyn.

Eithriadau i'r gwasanaeth

54. Mae'r gwasanaeth y mae Cyngor Sir Fynwy yn ei ddarparu yn wasanaeth bin olwyn. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau eithriadol, mae adegau lle y gellir cytuno ar ddewis arall. Gall unrhyw breswylydd sy'n dymuno cymryd rhan yn y gwasanaeth gwastraff gardd ac na all ddefnyddio bin olwyn, am y rhesymau a nodir isod, gysylltu â'r cyngor i drafod eu hanghenion gyda swyddog ailgylchu. Bydd y swyddog yn gwneud asesiad dros y ffôn neu ymweliad â'r eiddo a bydd yn cytuno ar yr ateb gorau gyda'r preswylydd.

55. Gellir cytuno ar eithriadau pan:

- Ni all cwsmer storio bin olwyn oherwydd nad oes lle rhwng blaen yr eiddo a'r briffordd gyhoeddus (tai teras heb erddi blaen a fflatiau er enghraifft). Yn yr achos hwn, bydd y cwsmer yn cael cynnig capasiti cyfatebol y bin olwyn (tri bag 80 litr y gellir eu hailddefnyddio, bob pythefnos) fel dewis arall.

- **Nid yw cwsmer yn gallu symud bin olwyn yn gorfforol**. Gall hyn fod oherwydd eu hoedran, o ganlyniad i gyflwr corfforol (anabledd) neu gyfuniad o'r ddau. Bydd swyddog ailgylchu yn cynnal asesiad mewn ymgynghoriad â'r aelod hwnnw o'r cyhoedd. Yr opsiynau sydd ar gael yw, naill ai cynnig capasiti cyfatebol y bin olwyn drwy gynnig cyflenwi tri bag 80 litr y gellir eu hailddefnyddio neu drwy gasgliad â chymorth gan ddefnyddio bin olwyn, pa un bynnag y cytunir ei fod yn fwy priodol o dan yr amgylchiadau.

56. Bydd unrhyw gwsmer a roddir i eithriad yn ddarostyngedig i bob un o gymalau 32-40.

Hysbysiad Prosesu Teg

Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth:

57. Bydd y wybodaeth a ddarperir gennych yn cael ei phrosesu yn unol â darpariaethau Deddf Diogelu Data 1998 a deddfwriaeth berthnasol. Mae gan y cyngor ddyletswydd i ddiogelu'r arian cyhoeddus y mae'n ei weinyddu, a gall ddefnyddio gwybodaeth a gedwir amdanoch er mwyn atal a chanfod twyll a dibenion cyfreithlon eraill. Bydd y Cyngor hefyd yn defnyddio'r wybodaeth er mwyn cyflawni unrhyw un o'i ddyletswyddau gorfodi statudol. Bydd yn gwneud unrhyw ddatgeliadau sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith a gall hefyd rannu'r wybodaeth hon â chyrff eraill sy'n gyfrifol am ganfod / atal twyll neu archwilio / gweinyddu arian cyhoeddus. Ni fyddwn yn datgelu eich gwybodaeth bersonol i drydydd partïon at ddibenion marchnata.

58. Efallai y bydd yn ofynnol i'r Cyngor drosglwyddo'r wybodaeth yr ydych wedi'i darparu i gyrff eraill at ddibenion gweinyddol ac fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith. Dim ond at ddibenion penodol a ganiateir gan y gyfraith y bydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio. Mae Cyngor Sir Fynwy yn 'rheolwr data' at ddibenion Deddf Diogelu Data 1998.

Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC)

Hysbysiad Preifatrwydd Data

Mae prosesu eich data personol gan Gyngor Sir Fynwy yn angenrheidiol er mwyn dyrannu eich casgliad Gwastraff Gardd a thrwy gofrestru ar gyfer y gwasanaeth rydych yn gwneud y cais i optio i mewn ar gyfer y contract gwasanaeth hwn. Heb y wybodaeth hon, efallai na fydd ein tîm Gwasanaethau Ailgylchu a Gwastraff o fewn Cyngor Sir Fynwy yn gallu cyflawni eich cais am wasanaeth.

Er mwyn cyflawni'r gwasanaeth hwn, bydd eich manylion yn cael eu rhannu'n gyfreithlon gyda Clarke Printing a Permiserv i gynhyrchu llythyr i'ch hysbysu o'r gwasanaeth, a rhoi sticer trwydded i chi mewn modd diogel. Ni fydd eich manylion personol yn cael eu rhannu ymhellach, oni bai mewn perthynas ag unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol eraill. Mae angen i chi gynnwys eich sail gyfreithlon ar gyfer prosesu, gweler enghreifftiau ar dempled corfforaethol ar yr HYB (os ydych yn defnyddio caniatâd, gwnewch yn siŵr eich bod yn casglu ar y pwynt cyswllt cyntaf).

Bydd eich cofnodion yn cael eu storio a'u cadw'n ddiogel yn unol â'n polisi cadw, drwy gydol y gwasanaethau a dderbynnir ynghyd â blwyddyn. Ni fydd hyn yn newid oni bai bod angen i ni gadw o dan sail gyfreithlon arall. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i gadw unrhyw fanylion yr ydych yn cofrestru gyda nhw drwy Fy Sir Fynwy i'ch galluogi i gysylltu â ni'n hawdd, rhoi gwybod am ddigwyddiadau neu wneud cais am wasanaethau newydd yn y dyfodol. Gweler Polisi Preifatrwydd Fy Sir Fynwy i gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio'ch manylion cofrestru ac i gael gwybodaeth am sut y gallwch ddadgofrestru o Fy Sir Fynwy.

Mae gennych yr hawl i ofyn am ddileu eich manylion a derbyn copi o'r wybodaeth yr ydych wedi'i rhoi i ni.

Os bydd angen i chi wneud cwyn am y ffordd y mae eich data wedi'i brosesu, cysylltwch â Swyddog Diogelu Data Cyngor Sir Fynwy ar: 01633 644647 neu os nad ydych yn gwbl fodlon gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar-lein ar www.ico.org.uk/concerns neu drwy eu llinell gymorth: 0303 123 1113

I gael rhagor o fanylion am breifatrwydd eich data, cysylltwch â: 01633 644 644 neu e-bostiwch: contact@monmouthshire.gov.uk